# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 1

GWASANAETHAU CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL LLEOL

*Asesiadau iechyd meddwl sylfaenol*

### 9 Cynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol

(1) Mae asesiad iechyd meddwl sylfaenol yn ddadansoddiad o iechyd meddwl unigolyn sy'n dynodi–

- (a) y driniaeth iechyd meddwl sylfaenol leol (os oes un) a allai wella iechyd meddwl yr unigolyn neu atal dirywiad ynddo (rhaid darparu unrhyw driniaeth a ddynodir felly: gweler adrannau 3 a 5); a
- (b) y gwasanaethau eraill (os oes rhai) a allai wella iechyd meddwl yr unigolyn neu atal dirywiad ynddo.

(2) Rhaid i'r partneriaid iechyd meddwl lleol sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gynnal gan unigolyn sy'n gymwys i gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol o dan reoliadau a wneir o dan adran 47.

(3) Mae'r cyfeiriad at wasanaethau eraill yn is-adran (1)(b) yn gyfeiriad at–

- (a) gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd;
- (b) gwasanaethau o fath a ddarperir fel arfer gan ddarparwyr gofal sylfaenol;
- (c) gwasanaethau gofal cymunedol (nad ydynt yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd);
- (d) gwasanaethau a ddarperir o dan Ran III o Ddeddf Plant 1989 (nad ydynt yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd);
- (e) gwasanaethau tai neu wasanaethau llesiant; ac
- (f) addysg neu hyfforddiant a all fod o fudd i iechyd meddwl unigolyn.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/10/2012. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 9. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 9 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 9 mewn grym ar 1.10.2012 gan O.S. 2012/2411, **ergl. 2(e)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/10/2012. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 9.